# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ**

**Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2019

Amser: 08.30 - 09.15

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir yr holl bleidleisiau cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i Fusnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 18 Mehefin 2019 –**

- Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Y Gweithgor ar Lywodraeth Leol – y camau nesaf (45 munud)
- ~~Datganiad gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Cynnydd tuag at Wneud Cymru'n Genedl Noddfa (45 Munud)~~ – *caiff ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig*

**Dydd Mawrth 25 Mehefin 2019**

Dadl ar Goridor yr M4 o amgylch Casnewydd (90 munud)

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 26 Mehefin 2019 –**

- Dadl ar y cyd gyda Senedd Ieuenctid Cymru (60 munud)
- ~~Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)~~ – gohiriwyd tan 3 Gorffennaf

**Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2019 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud) – gohiriwyd o 26 Mehefin
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Datblygu Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Bagloriaeth y Dyfodol: Statws cymhwyster Bagloriaeth Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

### 3.4 Eitem fusnes ar y cyd â Senedd Ieuenctid Cymru

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid ystyried yr eitem fel yr eitem gyntaf o fusnes – cyn busnes y Llywodraeth. Cytunwyd hefyd i gynnal pleidlais (os oes angen) ar y cynnig yn syth ar ôl i'r eitem ddod i ben, yn hytrach na'i gohirio tan y Cyfnod Pleidleisio. Nodwyd y bydd y Llywydd yn atal y cyfarfod ar ôl yr eitem, gyda busnes yn ailddechrau am 14.30.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd i aildrefnu dadl Cynnig Deddfwriaethol yr Aelodau i 3 Gorffennaf, er mwyn cynnwys yr eitem ychwanegol.

Gofynnodd y Trefnydd i rywun o dîm Senedd Ieuenctid y Comisiwn fod ar gael i drafod y datganiad drafft gyda swyddogion y Llywodraeth.

### 3.5 Dadl Aelod: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl ar 6 Mehefin:

**NNDM7068**

**Siân Gwenllian**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hanes Cymru yn cael ei ddysgu i bob disgybl ysgol yng Nghymru yn ddiwahan.

**Cefnogir gan:**

**Suzy Davies**

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Cais gan y Pwyllgor Cyllid am gyfarfod ffurfiol oddi ar y safle

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r cais.

### 4.2 Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon at y Llywydd

Nododd y Rheolwyr Busnes y llythyr, a chytuno ar amserlen y Bil.

### 4.3 Ystyried deisebau 5000 o lofnodion

## 5 Rheolau Sefydlog

### 5.1 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 1.3

Trafododd y Rheolwyr Busnes yr adroddiad a gofyn am wneud rhai newidiadau. Bydd swyddogion yn gwneud y newidiadau ac yn ailddosbarthu i Reolwyr Busnes i'w cytuno, cyn ei osod yr wythnos hon.

# 6 Busnes y Cynulliad

## 6.1 Effaith newidiadau diweddar i aelodaeth grwpiau ar bwyllgorau.

Trafododd y Rheolwyr Busnes y papur, a chytunodd Caroline Jones i gadarnhau dewisiadau plaid Brexit ar ôl eu cyfarfod grŵp y bore yma.